
# LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR

## CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 1 – GWANWYN 2004





***YN Y RHIFYN HWN –***

- 6 MIS CYNTA'R GYMDEITHAS
- ADAR DE GEORGIA
- ELYRCH Y GOGLEDD
- ADAR CAMPUS CYMRU
- AROLWG O'R AROLYGON
- DIGWYDDIADAU

***A LLAWER, LLAWER MWY!***

## *ER BUDD ADAR A BYD NATUR*

**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**
**ER BUDD ADAR A BYD NATUR**

# GOLYGYDDOL

## ANNWYL GYFEILLION,

**Croeso i gylchlythyr cyntaf Cymdeithas Ted Breeze Jones. Mawr obeithiwn y caiff groeso brwd gan adarwyr, naturiaethwyr a phawb sy'n caru cefn gwlad ymhobman.**

Lawnsiwyd y Gymdeithas ym mis Hydref 2003 ac eisoes cafwyd ymateb calonogol iawn i'w rhaglen o ddarlithiau a theithiau maes dros y gaeaf. Rydym yn bwriadu cynnyddu'r gweithgareddau hyn yn sylweddol yn y dyfodol i gynnwys llawer o bethau gwahanol a chyffrous ar gyfer pawb o bob oed. Cofiwch mai o'r fesen fach y tyfa'r dderwen fawr!

Roeddem yn gweld angen am gymdeithas o'r fath am sawl rheswm. Yn sicr i goffau Ted ei hun oedd yn un o adarwyr amlycaf Cymru ac a wnaeth cymaint i boblogeiddio adar a byd natur drwy ei luniau, llyfrau, darlithiau difyr ac yn arbenig ei gyfraniadau ar radio a theledu. Roeddem hefyd yn ymwybodol nad oes chwarter digon o bethau'n digwydd yn y Gymraeg y dyddiau hyn yn ymwneud ag adar – sydd, yn bendant, y maes mwyaf poblogaidd o fyd natur.

Dyhead arall yw sefydlu Canolfan Adar Genedlaethol yng nghyffiniau Porthmadog. Mae hwn yn gynllun uchelgeisiol gymerith rai blynyddoedd i'w wireddu, ond os llwyddith gall brofi'n gaffaeliad mawr i'r fro ac yn fodd i gyflwyno'r neges amgylcheddol i blant ac oedolion – gan wneud hynny ar y cyd â nifer o gyrff eraill fydd yn bartneriaid yn y fenter. Dwyryd Cyf., Penrhyndeudraeth sy'n llywio'r ymgyrch i sefydlu'r Ganolfan ar hyn o bryd a dymunwn bob lwc iddynt i gael y maen i'r wal yn llwyddiannus.

Fel y gwelwch, ***Llygad Barcud*** yw enw'r Cylchlythyr – sydd yn enw delfrydol am sawl rheswm. Mae stori'r barcud yn un o lwyddiannau mawr y byd adaryddol yng Nghymru – fel y gobeithiwn y byddwn ninnau! Ei amcan fydd cadw golwg a gadael ichi wybod am bopeth difyr am adar sy'n digwydd ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Bwriedir cyhoeddi ***Llygad Barcud*** dair gwaith y flwyddyn.

Yn y rhifyn cynta 'ma fe welwch erthyglau a phytiau difyr gan sawl cyfrannwr, ond cofiwch, os ydy' ***Llygad Barcud*** i ffynnu a thyfu – a'r gobaith yw y bydd yn datblygu'n gylchgrawn poblogaidd a lliwgar ymhen amser – bydd angen eich cymorth a'ch cyfraniadau chi. Anfonwch atom felly gofnodion o adar difyr a welsoch, sylwadau, lluniau, erthyglau, pytiau, cerddi a digwyddiadau. Yn ogystal, yn y rhifyn nesa - fydd allan erbyn Eisteddfod Casnewydd - bydd *Seiat Natur* yn barod i ateb eich cwestiynnau – felly manteisiwch ar y cyfle! Anfonwch atom erbyn diwedd Mehefin fan bellaf inni gynnwys eich cyfraniad yn yr ail rifyn o ***Llygad Barcud***.

Golygyddion: Rhodri Dafydd
Twm Elias


SNOWDONIA NATIONAL PARK

## *Plas Tan y Bwlch*

***Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri***

Pob llwyddiant i

**Gymdeithas Ted Breeze Jones**
ac i
**LLYGAD BARCUD**

Yn ystod y Pasg, Ebrill 13-15, byddwn yn cynnal 3 cwrs Gymraeg:
*Gwylio Adar* – efo Twm Elias
*Hen Llwybrau Eryri* – efo Andrew Weir
*O Eifionydd i Eden – Creigiau, Tirweddau a Dyn* – efo Dyfed Elis-Gruffydd a John Davies

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch:
01766 590324

# LLYTHYR

## GAN LYWYDD ANRHYDEDDUS CYMDEITHAS TED BREEZE JONES –

# IOLO WILLIAMS



Tan-yr-Onnen
Y Drenewydd
Powys

12/03/04

Annwyl Olygydd,

Rwy'n ysgrifennu fel Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas Ted Breeze Jones i ddymuno'n dda ichi ar y fenter newydd.

Roedd Ted yn ddylanwad mawr arnaf pan oeddwn yn llanc ifanc yn ymddiddori mewn adar a bywyd gwyllt ardal Llanwddyn, ac yn ddiweddarach, roedd ei frwdfrydedd, ei wybodaeth a'i barodrwydd i helpu yn gymorth aruthrol imi pan weithiais fel Swyddog Adar i'r RSPB. Nid wyf erioed wedi cyfarfod unrhyw un a allai drosglwyddo ei frwdfrydedd a gwybodaeth am fywyd gwyllt i'w gynulleidfa fel y gallai Ted. Roedd ei gefndir fel athro, ffotograffydd a naturiaethwr yn gyfuniad perffaith i'r perwyl hwn.

Rwyf mor falch bod rhai o ffrindiau ac edmygwyr Ted wedi dod at ei gilydd i sefydlu Cymdeithas yn ei enw, a chalonogol iawn yw gweld bod y Gymdeithas newydd yma eisioes yn weithgar tu hwnt yn cynnal darlithoedd a chyfarfodydd lu. Y cam nesaf ydi cyhoeddi cylchlythyr y Gymdeithas – ***Llygad Barcud*** - gyda newyddion am adar led led Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwir angen y fath fenter i godi ymwybyddiaeth pobol a phlant Cymru am adar a'u pwysigrwydd i'r amgylchedd.

Bydd ysgrifau Ted yn parhau i ddylanwadu ar adarwyr hen ac ifanc am genhedlaethau i ddod a'r gobaith ydi y bydd Cymdeithas Ted Breeze Jones yn gwneud yr un peth drwy ddod a'r adarwyr yma at ei gilydd i fwynhau. A mwynhau ydi'r gair pwysicaf oll gan mae mwynhau ei adar wnaeth Ted trwy gydol ei oes.

Pob lwc i'r Gymdeithas a'i haelodau a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Yn gywir,

**Iolo Williams**

---

### WYDDOCH CHI?

#### *Y Mwyaf a'r Lleiaf*

Yr aderyn mwyaf yn y byd yw'r estrys (*Struthio camelus*) o Affrica ac Arabia. Gall ceiliog sefyll 8 troedfedd (2.45 m), a phwyso hyd at 345 lb (155 kg). Dim rhyfedd bod rhai wedi ystyried eu ffermio yng Nghymru!

Y lleiaf yw'r Aderyn-y-si gwenynnog (*Mellisuga helenae*) sy'n byw yn Ciwba. Dwy fodfedd (5 cm) yw ei hyd yn gyfangwbl – yn cynnwys ei gynffon a'i big hir. Mae'n pwyso tua 2.8 gm sef tua hanner pwysau'r eurben bach welwn yn ein coed pinwydd ni gartref.

#### *Adar yn clwydo*

Gall adar sy'n clwydo fynd i gysgu ar gangen heb ddisgyn i ffwrdd – a'r trymaf y cysgant y lleiaf tebyg ydynt o ddisgyn! Gallant wneud hyn oherwydd fel mae'r aderyn yn ymlacio, wrth 'eistedd' ar y gangen, mae'r cymalau yn y goes yn plygu mwy. Oherwydd fod y gïau, neu'r tendon hir, sy'n rheoli gafael y crafangau yn mynd rownd cefnau y cymalau yna y mwyaf y plyga'r goes wrth i'r aderyn gysgu y tynna fydd gafael y crafangau am y gangen.

TAITH GYNTAF CYMDEITHAS TED BREEZE JONES –

# ADAR Y COB A BORTH Y GEST, DYDD SADWRN, 13eg RHAGFYR 2003

**Wedi noson lawnsio lwyddiannus i'r Gymdeithas ar y 18fed o Dachwedd - pan gafwyd sioe o sleidiau Ted a darlleniadau o farddoniaeth gan Gwyn Thomas – cafwyd taith gyntaf Cymdeithas Ted Breeze Jones ar ddydd Sadwrn y 13eg o Ragfyr, gyda deuddeg o aelodau'r Gymdeithas newydd yn bresennol.**




Y CRIW YN YMGYNNULL GER Y COB, YN BAROD I DDECHRAU AR Y DAITH HANESYDDOL!

Dan arweiniad Twm Elias, cafwyd dwy daith fer yn ardal Porthmadog. Y gyntaf rownd y 'Cob crwn' cyn mynd ymlaen i Borth y Gest. Cafwyd trafodaeth am y cynlluniau sydd ar y gweill i adeiladu canolfan adarydda genedlaethol yn yr ardal er cof am Ted Breeze Jones. Yn sicr, byddai canolfan o'r fath yn dod a budd mawr i Port, sydd mor gyfoethog o ran adar y gaeaf â'r olygfa dros y morfa heli ac afon Glaslyn mor eang a deniadol, gyda'r Cnicht a'r Moelwynion yn gefndir gogoneddus i'r rhai sydd am edrych y tu hwnt i'r adar!

Ar y dydd Sadwrn hwn, gyda chymaint o law wedi disgyn yn ystod y diwrnodau blaenorol, roedd y Traeth Mawr yn un llyn anferth, a hawdd oedd dychmygu sut yr edrychai'r ardal cyn i William Maddocks adeiladu'r Cob ym 1811. Ond wrth gwrs, doedd yr holl ddŵr yn poeni dim ar yr adar! Ymysg y rhai a welwyd ar y cymal hwn o'r daith roedd gylfinirod, cornchwiglod, chwiwellod, gïach, gwyach bach a bilidowcar neu ddau – ond yr uchafbwynt oedd gweld fflach sydyn o las llachar ac oren tanbaid – do wir, fe welwyd glas y dorlan yn gwibio ar hyd ymyl y llwybr.

Tynnwyd ein sylw at weddillion cannoedd o gregyn gleision a oedd wedi eu malu'n deilchion a'u gwasgaru ar hyd y llwybr tarmac...o ble y daeth y rhain tybed? Wel, brain a gwylanod

sy'n eu cludo o lan y môr i'r llecyn yma, ac wedyn yn eu gollwng o beth uchder ar y wyneb caled i'w malu, a'r creadur diymadferth y tu mewn bellach yn ddiamddiffyn – ac yn bryd bach digon blasus (er nad o'i wirfodd!) i aderyn llwglyd!



TWM A'R CRIW AR Y COB CRWN

Wrth gerdded yn ôl tua chanol y dref, beth a welwyd yn nŵr heli y Cob bach ond pen hen forlo llwyd busneslyd – am weld beth oedd yr holl sŵn oedd o mae'n siwr! Mae'n debyg fod yr hen forlo i'w weld o bryd i'w gilydd yma, er nad yw'n mentro yn llawer pellach i fyny'r afon Glaslyn.

Wedi rhyw egwyl fer i ginio, pan aeth rhai i fynychu bwytai a chaffis y Port, ac eraill i fwyta eu brechdannau a blasu te 'Thermos' ger y cei (gan eto sylwi ar olion y cregyn gleision yn deilchion mân ar hyd y llawr), aethom ymlaen ar hyd lwybr y glannau i Borth y Gest. Erbyn hyn roedd y gwynt wedi chwythu cymylau'r bore ymaith, ac roedd awyr las a heulwen isel mis Rhagfyr i'w gweld tua'r gorllewin.

Ar y traeth ym Mhorth y Gest cafwyd cyfle i weld amrywiaeth pellach o adar, gan gynnwys heidiau bychain o'r pibydd coesgoch a phioden y môr, a dysgwyd ni i wahaniaethu rhwng pibydd y mawn a phibydd yr aber. Wedi cerdded ychydig yn bellach o amgylch yr arfordir, a defnyddio telesgop pwerus Twm, gwelwyd trochyddion a hwyaid pengoch yn nofio'n chwareus ar aber yr afon Dwyryd. Nodwyd fod yr ardal honno lle'r oedd llif y ddwy afon (y Glaslyn a'r Ddwyryd) yn cyrraedd dŵr hallt y môr yn un hynod o gyfoethog o ran bywyd gwyllt.


Wrth gerdded yn ôl tua Phorthmadog, gwelwyd brân ifanc yn dangos ei diffyg profiad wrth iddi ollwng cragen las i ganol llecyn mawr o redyn a mieri, cyn cau ei hadennydd a chwyrlio i lawr i edrych amdani – tasg amhosib! Efallai y dysgith rhyw ddydd mai ar y graig y tyrr y gragen!

Yn sicr cafwyd diwrnod a hanner, yn llawn profiadau difyr, cwmni da, ac ychwanegwyd at wybodaeth pawb a oedd yno, a hynny oll drwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithio i bawb gael diwrnod wrth eu bodd!



GWYLIO'R TROCHYDDION


**Yn Eisiau!**



**GWIRFODDOLWYR**

**ar Aber yr Afon Mawddach**
**Ar gyfer gwaith tu allan ar ddydd Mercher**
neu
**waith yn y ganolfan ymwelwyr ar unrhyw ddiwrnod**

Gwobr: £££oedd o foddhad


Am fanylion pellach cysylltwch â Frances yng ngwarchodfa RSPB Ynys-hir (01654 700222)

RSPB dros adar dros bobl am byth

# Elyrch y Gogledd yn Nyffryn y Glaslyn 1992-2003

Gan Kelvin Jones

**Cafodd elyrch y gogledd dyffryn y Glaslyn eu hastudio yn fanwl rhwng Hydref 1992 a Rhagfyr 2003. Roedd hyn yn dilyn cwynion gan rai ffermwyr eu bod allan o boced am fod yr elyrch yn cystadlu efo'u gwartheg am borfa a'u bod yn amharu ar borfa cegaid cynnar yn y gwanwyn. Penderfynwyd talu sylw i ba dameidiau o dir oedd yn cael eu pori gan yr elyrch ac am faint o amser.**



ALARCH Y GOGLEDD (*Cygnus cygnus*)

Yn wreiddiol penderfynwyd cyfrif yr elyrch un waith pob wythnos. Mewn gwirionedd cafodd ei wneud o leiaf ddwy waith yr wythnos pan oedd yr elyrch yn cyrraedd ac yn gadael. Roedd nifer o rywogaethau eraill cysylltiedig, fel gwyddau, yn cael eu cyfrif hefyd.

Mae cofnodion hanesyddol bod dwy rywogaeth o elyrch, y Bewic a'r Gogledd yn y dyffryn ac yng nghorsydd Ystumllyn gerllaw. Ni chafwyd haid gyson tan Rhagfyr 1972, pan ddaeth 29 o'r adar i fferm Portreuddyn, Prenteg, ger Porthmadog. Bu iddynt aeafu yno bob blwyddyn tan 1991-92 pan aethant am dro i fferm Tŷ Newydd Morfa, Llanfrothen, ychydig bellter i fyny'r dyffryn. Yma daeth yr elyrch dof lleol atyn nhw, a hefyd rywfaint o elyrch Bewic oedd yn ymfudo yn ôl i ogledd Ewrop o'r Iwerddon. Bu i'r niferoedd uchel greu pryder mawr i Mr Lewis y ffarmwr ar y pryd. Maent wedi cymeryd at y rhan yma o'r traeth ers hynny, ac er fod peth crwydro pob hyn a hyn i ffermydd eraill am amser byr, yn ôl y deuant.

Fel arfer, bydd yr adar yn cyrraedd tua'r ail wythnos ym mis Hydref, a byddant yn cael eu gweld gyntaf ar lyn y Gadair, cyn disgyn oddi yno i'r dyffryn. Mae eu niferoedd yn cynnyddu tan ddechrau'r

flwyddyn newydd, ac yn dechrau gostwng yn raddol o ddiwedd mis Ionawr, gyda'r adar wedi gadael yn gyfangwbl erbyn canol Ebrill.

O'r nifer a gafodd eu cyfnodi ym 1992 aeth yr haid i lawr trwy ddechrau y nawdegau, cyn cynnyddu o 2000 ymlaen. Mae poblogaeth gwlad yr Iâ wedi tyfu yn gadarn dros yr amser yma, hefo cynnydd cyfatebol yn safleoedd y Wetland Trust mewn mannau fel Martin Mere ger Lerpwl, a Chaerlaverock yn yr Alban.

Mae sawl aderyn hefo modrwy ac un hefo coler yn bresennol yn yr haid. Mi ddaeth aderyn coler 2J34 yn gyntaf yn Hydref 1994, wedi iddo gael ei ddal a'i fodrwyo yn Langholmavat, Tungnheidi, Gwlad yr Iâ ar 8fed o Awst y flwyddyn honno. Roedd yn oedolyn benywaidd pan gafodd ei dal, a chydag oes o ddeng mlynedd yn y gwyllt ar gyfartaledd, mae'n amheus y gwelir hon am ryw lawer o aeafau eto. Cafodd yr aderyn yma ei choleru fel rhan o astudiaeth i weld os oedd rhywfaint o boblogaeth Gwlad yr Iâ yn gaeafu ar arfordir Scandinafia.

Yn 2002/03 y daeth yr aderyn gyda modrwy 3BP, aderyn oedd wedi gaeafu yma y flwyddyn cynt, a theulu o dri chyw adref gyda hi, y tro cyntaf i aderyn a oedd yn bosib ei adnabod i ddod â theulu yn ôl. Yn 2003 ymddangosodd SB7 (aderyn oedd wedi bod yn gaeafu yn Caerlaverock) gyda theulu o dri aderyn ifanc ar ei hol. Yn ystod amser yr astudiaeth cadwodd y teulu bach yma eu pellter o ran fwyaf yr haid.

Mesurwyd graddfa epiliad yr haid yn fanwl ers 1998, ac mae'n werth nodi nad yw graddfa epilio yr haid ar y Glaslyn yn cyd-fynd a chynhyrchiant yr haid genedlaethol, ond yn hytrach, gwelwyd ei bod yn dilyn patrwm ardaloedd lleol yng Ngwlad yr Iâ.

| | |
|---|---|
| 1998/99 | 30.2%, |
| 1999/00 | 17.2%, |
| 2000/01 | clwy'r traed a'r genau, |
| 2001/02 | 14.8%, |
| 2002/03 | 13.8%, |
| 2003/04 | 29.7% |


Byddai gweld mwy o adar a gofnodwyd yn flaenorol (drwy eu modrwyo) yn helpu i egluro'r mater. Ond yn anffodus nid yw elyrch y Gogledd mor hapus i gael eu dal ag yw eu cefndryd yr elyrch dof, a gwneir hyn yn anos byth heb gyfleusterau fel sydd gan warchodfeydd y Wetland Trust.

Mae elyrch Bewic wedi ymuno â'r haid yn y gorffennol. Maent yn cyrraedd yn hwyr yn y gaeaf a'r rhagdybiaeth yw eu bod ar eu ffordd adref i ogledd Ewrop o'r Iwerddon. Roedd pedwar aderyn hefo'r haid dros Nadolig 1999, ac un dros y gaeaf 1996-97.

<u>Uchafbwynt y Mis.</u>

| | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Maw | Ebr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1992/93** | 45 | 79 | 67 | 62 | 60 | 61 | 49 |
| **1993/94** | 29 | 66 | 56 | 48 | 42 | 42 | 33 |
| **1994/95** | 25 | 32 | 33 | 27 | 35 | 28 | 20 |
| **1995/96** | 2 | 32 | 38 | 41 | 40 | 40 | 38 |
| **1996/97** | 7 | 28 | 30 | 36 | 16 | 31 | 24 |
| **1997/98** | 10 | 38 | 56 | 50 | 50 | 44 | 12 |
| **1998/99** | 13 | 37 | 43 | 28 | 33 | 42 | 22 |
| **1999/00** | 3 | 33 | 45 | "59" | 55 | 51 | 28 |
| **2000/01** | 4 | 34 | 43 | 48 | 41 | 42 | 43 |
| **2001/02** | 5 | 45 | 55 | 56 | 49 | 47 | 22 |
| **2002/03** | 35 | 47 | 42 | 44 | 41 | 46 | |
| **2003/04** | 26 | 53 | 69 | 69 | 67 | 74 | |

Mae'n amlwg o'r astudiaethau a wnaethpwyd fod rhan isaf dyffryn y Glaslyn yn ardal aeafu bwysig dros ben i elyrch y Gogledd yng Nghymru. Mae'r nifer o adar sydd yn defnyddio'r ardal yn uwch na mae'r cyfrif hwn yn ei awgrymu, gan fod adar eraill hefyd yn gaeafu ar lynnoedd bach ucheldir Meirionnydd, ac adar sydd ddim yn magu hefyd yn bresennol yn ystod yr amseroedd mudo prysuraf. Heb gael mwy o adar hefo rhyw fath o nod adnabod, dim ond wrth gymharu cymhareb y cywion i'r oedolion cawn rhyw syniad o faint o'r adar hyn sydd ddim yn magu.



ELYRCH YN BWYDO GYDA GWYDDAU GWYLLTION YN Y CEFNDIR

## ADERYN Y BWN AR YNYS ENLLI

Difyr oedd clywed yn ddiweddar i Aderyn y Bwn (*Botaurus stellaris*) gael ei weld ar Ynys Enlli ddiwedd mis Chwefror eleni.

Mae hwn - un o aelodau swilaf teulu'r creyrod - yn aderyn anghyffredin yng Nghymru – yn ddiweddar clywyd ceiliog yn canu (ei swn bwmian nodweddiadol a roddodd iddo'i enw yn ôl pob tebyg) yng ngwylyptiroedd y Fali yng Ngogledd Orllewin Môn, ond mae'n debyg nad yw, oherwydd diffyg cymar, wedi llwyddo i fagu. Gyda gwaith yn parhau i ehangu'r gwlyptiroedd ac i greu cynefin mwy addas i'r aderyn (yn benodol drwy blannu ardaloedd mawr o hesg (*Phragmites*) y gobaith yw y bydd yr aderyn i'w weld yn amlach yng Nghymru yn y blynyddoedd i ddod – a phwy a ŵyr, un dydd cawn eu gweld yn magu yma hefyd.



ADERYN Y BWN
Llun – Ted Breeze Jones

# CHWE MIS CYNTA'R GYMDEITHAS

**Ers sefydlu'r Gymdeithas ym mis Tachwedd, mae cryn dipyn wedi digwydd! Cafwyd hanes y daith gyntaf eisoes yn y cylchlythyr – dyma ddigwyddodd nesaf!**

Wedi'r daith gyntaf, y ddwy eitem nesaf ar yr arlwy oedd dwy ddarlith yn Stablau Plas Tan y Bwlch, Maentwrog – y gyntaf gan Twm Elias, yr ail gan Dafydd Roberts.

Testun y ddarlith gyntaf oedd 'Y gigfran, yr eryr, y dryw a'r dylluan – eu lle yn ein llên gwerin'. Nid oes raid dweud fod hon wedi bod yn ddifyr dros ben ac yn agoriad llygad, gan olrhain hanes adar yng ngwareiddiad y byd, a sut y bu iddynt fod yn ysbrydoliaeth i bobl, gan ddilyn enghreifftiau o chwedlau a straeon o bob cyfandir. Byddwn yn ehangu ar ddarlith Twm yn ystod rhifynnau nesaf ***Llygad Barcud*** – bydd erthyglau am adar yn chwedloniaeth y byd yn eitem reolaidd o'r rhifyn nesaf ymlaen.

Roedd yr ail ddarlith gan Dafydd Roberts ar Adar Ynysoedd De Georgia. Ceir mwy o'r hyn a roddodd Dafydd i ni ar dudalen 12 o'r cylchlythyr hwn, ond ni ellir cyfleu mor wefreiddiol oedd eistedd yno yn y tywyllwch yn edrych ar yr holl sleidiau anhygoel o adar a golygfeydd godidog yr ynysoedd rhyfeddol hyn.

Wedi dwy ddarlith werthchweil, roedd hi'n amser i gael taith maes arall i Ynys Môn, y tro hwn yng nghwmni Rhys Jones. Cyfarfu deg o aelodau yn y maes parcio ger cob Malltraeth, i weld adar dŵr yn bennaf, mewn nifer o safleoedd ar hyd ochr orllewinol yr ynys. O'r Cob, i Lyn Coron, ac yna i Borth Cwyfan – cafwyd diwrnod hynod ddifyr a gwelwyd amrywiaeth eang o adar – o rai bychain fel yr ehedydd a'r gwyach bach, hwyaid fel y gorhwyaden a'r lostfain, i adar ychydig yn fwy sydd bellach wedi prinhau yn arw ar hyd a lled Cymru - y gornchwiglen a'r gylfinir. Braf oedd gweld fod adar fel y rhain, er wedi diflannu o lawer cwr o Gymru yn sgil sychu tir a cholli cynefinoedd, yn parhau yn gymharol niferus ar ynys Môn, er fod eu niferoedd wedi gostwng yn aruthrol yma hefyd. Ond uchafbwynt y diwrnod hwn i lawer oedd gweld Hebog Tramor wrthi'n hela. Roedd yn amlwg fod rhywbeth ar ddigwydd pan welsom rai o'r adar llai yn cynhyrfu a gwibio'n wyllt. Ymhen dim gwelsom pam wrth i'r hebog wibio heibio, gan geisio taro rhyw aderyn anffodus allan o'r awyr. Methu a wnaeth, (yn ffodus i'r 'deryn!), ond roedd cael gweld ymosodiad o'r fath yn brofiad arbennig.

Yn anffodus daeth y tywydd i amharu ar rai o weithgareddau diweddarach y Gymdeithas – bu'n rhaid gohirio darlith Rhys Jones ar adar Aride (y Seychelles) oherwydd yr eira mawr ddiwedd Chwefror, ond yn ffodus gellid ei chynnal ychydig yn ddiweddarach, a hynny ar yr 17eg o Fawrth. Gwnaeth gweld yr holl sleidiau o hinsawdd drofannol, traethau gwyn ac adar bendigedig megis y morwenoliaid gwyn a'r robin-biod dof y byd o les i ni ar ôl gaeaf estynedig fel a gafwyd, ac rwyn sicr iddi godi awydd teithio ymhlith pawb a oedd yn bresennol!

Cael ei ohirio oedd tynged y bore modrwyo adar hefyd yn anffodus, a hynny tan y gaeaf nesaf! Wedi methu unwaith oherwydd yr eira, a'r ail waith oherwydd tywydd garw, penderfynnwyd ei bod yn mynd braidd yn rhy agos at y tymor nythu, ac mai gadael y modrwyo tan y flwyddyn nesaf fyddai ddoethaf.

Ar ddydd Sadwrn y 27ain o Fawrth, criw bychan ddaeth ynghyd ar gyfer taith yn ardal y Fawddach yng nghwmni Ann Thomas, ond cafwyd amser da a gwelwyd nifer o adar yn cynnwys hebog tramor a haid fechan o'r bras melyn.

Bu chwe mis cyntaf y Gymdeithas yn rhai difyr a llwyddiannus dros ben, gyda'r Gymdeithas yn mynd o nerth i nerth, a'r aelodau yn cynyddu gyda phob wythnos aethai heibio. Diolch i bawb a ddaeth i'r teithiau a'r darlithoedd, rydym yn gwerthfawrogi eich hymdrech a'ch hymroddiad ac edrychwn ymlaen i'ch gweld eto.

Ond cofiwch – tra bod gweithgareddau eleni yn parhau rydym hefyd yn dechrau meddwl am raglen y gaeaf nesaf – bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf o ***Llygad Barcud***.

# CYNLLUN ADFER Y GRUGIAR DDU YNG NGHYMRU

Rhodri Dafydd



Llun – RSPB Images

**A hithau'n ddim ond hanner awr wedi pedwar y bore, ar hyd a lled gogledd Cymru ddiwedd mis Ebrill eleni bydd nifer o wirfoddolwyr yn camu allan o'u gwelyau cynnes braf ac yn mentro allan i dywyllwch rai o goedwigoedd y Comisiwn Coedwigaeth a thir cyfagos. Pam meddwch chi y byddai unrhywun yn gwneud peth mor ffol?! Wel, mae'n amser cyfrif y grugiar ddu 2004.**

Yr adeg hon o'r flwyddyn bydd ceiliogod y grugiar ddu yn deffro'r un mor gynnar ac yn mynd allan i edrych am gymar. Neu yn hytrach, i ddangos eu hunain - yr ieir a fydd yn gwneud y dewis! A sut aiff yr adar yma ati i dynnu sylw'r merched? Wel, yn addas iawn o ystyried mai yng Nghymru yr ydym – drwy ganu wrth gwrs! Rhyw gymysgedd ryfedd o sŵn colomen a sŵn ffrwd fechan yn canu yw cân y grugiar ddu, ac ymhlith côr y wig, peth hawdd iawn yw meddwl am ennyd eich bod wedi dod o hyd i geiliog unig yn canu – dim ond i ddarganfod mai nant fechan sy'n byrlymu ger ymyl y llwybrau coedwig! Ond os byddwch yn ddigon

ffodus i ddod ar draws safleoedd arddangos y grugieir ac yn clywed aderyn go iawn, ni ellir ei gamgymryd am unrhywbeth arall.

Ac oherwydd yr arfer hwn o ganu'n gynnar yn y bore – 'lekking' chwedl y sais – y mae hi mor hawdd i gyfri niferoedd yr adar yr adeg hon o'r flwyddyn. Ond pam fod angen gwneud hyn? Wel yn syml ddigon, mae'n angenrheidiol erbyn hyn i fonitro niferoedd y grugiar ddu i asesu maint y boblogaeth yng Nghymru - oherwydd tan yn ddiweddar iawn, roedd y dyfodol yn edrych yn o ddu i'r aderyn prin hwn.

Ym mis Mehefin 1999 dechreuwyd ar Gynllun Adfer y Grugiar Ddu yng Nghymru (drwy nawdd yr Undeb Ewropeaidd (EAGGF), y Cynulliad Cenedlaethol, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Menter Coedwigaeth), a hynny er mwyn ceisio atal y dirywiad cyson yn niferoedd y grugiar ddu yng Nghymru a welwyd dros y blynyddoedd blaenorol. Rhwng 1986 a 1997 gwelwyd niferoedd yr adar gwryw a oedd yn arddangos yn disgyn o 264 i 131 – gostyngiad o 50%. Yn wir, cymaint oedd yr ofn ar un pryd, nes y credid y gallai'r grugiar ddu ddiflannu yn gyfangwbl o ucheldiroedd Cymru o fewn 10 – 15 mlynedd.

Ond gan ganolbwyntio ar y cynefinoedd hynny sydd yn bwysig i'r grugiar ddu – yn cynnwys tir wedi'i goedwigo, neu rostir a glaswelltir rhwng 100 a 500 medr o ymyl y goedwig – mae'r cynllun yn ceisio rheoli'r ardaloedd hyn er budd yr adar. Gwneir hynny drwy waith megis rheoli rhedyn, torri grug, a rheoli'r coed ar hyd ymylon ac mewn llennyrch oddi mewn i'r coetiroedd - sydd yn araf wella sefyllfa'r grugiar ddu.

Er i'r niferoedd barhau i ddisgyn mewn rhai ardaloedd, yn yr ardaloedd hynny ble targedwyd yr ymdrechion i wella'r cynefin, gwelwyd cynnydd cyson ym mhoblogaeth y grugiar ddu, gymaint felly nes i gyfrif 2002 ddangos fod 243 o geiliogod yn arddangos y flwyddyn honno, 85% yn fwy nag a oedd ym 1999.

Mae'r prosiect yn parhau, gan gydweithio law yn llaw gyda'r Comisiwn Coedwigaeth a Chyngor Cefn Gwlad Cymru – drwy reolaeth ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, cynlluniau rheoli coetiroedd a chynlluniau amaeth-amgylcheddol megis Tir Gofal – i weithio er budd y grugiar ddu.

Os am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r cynllun, unai fel perchnogion sydd â thir y credwch sy'n addas ar gyfer y grugiar ddu, neu os oes gennych ddiddordeb mwy cyffredinol yn y cynllun, cysylltwch â'r swyddog prosiect sef Patrick Lindley, ar (01248) 363 800 neu ewch i'r wefan www.blackgrouse.co.uk.

**Mae'r grugiar ddu yn un o 'Adar Campus Cymru!' – darllenwch erthygl Gwen Thomas o'r RSPB ar dudalen 14 i ddysgu mwy!**

## WYDDOCH CHI?

***Twrci?***

O ogledd America y daeth yr aderyn hwn yn wreiddiol. Ond pan ddygwyd rhai i Brydain gyntaf, oddeutu 1541, roedd pobl yn meddwl mai o Dwrci y daethant. Doedd y Ffrancwyr ddim yn siwr o darddiad y 'deryn chwaith, sy'n cyfrif am eu henw "'Dindon" arno – sy'n golygu: "o'r India"!

***Y Dyn Gwyn Bach***


Yn nwyrain Talaith y Penrhyn, De Affrica, mae sgiliau'r gwenoliaid yn adeiladu eu nythod o fwd (mae sawl rhywogaeth yn aros yno i nythu) wedi rhoi iddynt yr enw *umLungu*, neu y dyn gwyn bach. Y rheswm am hyn yw fod y bobl wynion, yn wahanol i bobl frodorol y fro, sy'n adeiladu tai o gymysgedd o fwd a gwellt, yn adeiladu eu tai o frics – yn union fel y gwna'r wenoliaid efo'u cegeidiau o "frics" mwd.

Gyda llaw, mae'r bobl frodorol yn ogystal a'r gwynion yn ystyried bod wennol yn codi ei nyth dan fondo eu tŷ yn arwydd o lwc dda.

# ADAR DE GEORGIA

Dafydd Roberts

**Byth ers yn blant, mae'n siwr bod gan y rhan fwyaf ohonom freuddwyd arbennig sy'n tynnu arnom ychydig yn gryfach ac ychydig yn amlach na'r rhan fwyaf o'n breuddwydion eraill. Cael gweithio ar adar y môr ar rhyw ynys bellenig oedd fy mreuddwyd i, ac ym 1999 cefais gyfle i wireddu'r freuddwyd honno pan gefais gynnig swydd tair mlynedd i astudio'r albatros yn un o'i chadarnleodd ar ynys De Georgia yng nghalon Cefnfor y De.**



Ynghlwm â'r wefr amlwg a deimlais o gael yr anrhydedd o weithio ar yr adar eithriadol yma, roedd hefyd teimlad o dristwch mawr. Ers diwedd y 1950au pan gychwynodd gwyddonwyr fonitro eu poblogaethau ar Dde Georgia, mae niferoedd llawer o rywogaethau o'r albatross wedi gostwng bron i'w hanner erbyn heddiw.

Y prif reswm am hyn ydi'r cynnydd aruthrol sydd wedi bod ers y 1980au mewn pysgota am fathau o bysgod drudfawr yn yr union ardaloedd lle mae albatrosiaid De Georgia yn mynd i ganfod bwyd e.e. silff Patagonia. Datblygwyd peirianwaith a thechnegau yn ystod y cyfnod yma lle gall cychod pysgota osod leiniau â hyd at filiwn o fachau arnynt mewn diwrnod. Ar bob bachyn mae darn o abwyd i ddenu'r pysgod drudfawr fel y tiwna a'r pysgodyn cleddyf, a dyma'r union abwyd sydd hefyd yn denu'r albatros. Ni wêl yr albatros y bachyn o dan yr abwyd, ac o ganlyniad mae cannoedd o filoedd o adar y môr gan gynnwys yr albatros yn cael eu boddi ar y bachau yma bob blwyddyn.


Yn sgil y dinistr di-synnwyr yma, mae rhai o'r gwyddonwyr amlycaf ym myd cadwraeth wedi bod yn pwyso yn rhyngwladol ar wleidyddion i gymryd camau i newid y sefyllfa. Ar nifer o gychod mewn rhai pysgodfeydd trwyddedig, mae mesurau eithaf llwyddianus wedi eu cymryd i leihau'r niferoedd o adar sy'n cael eu boddi. Ond oherwydd bod llawer o'r cefnforoedd mor eang ac mor anodd i'w plismona, parhau mae'r problemau hefo cychod anhrwyddedig ac anghyfreithlon sy'n

malio dim am dranc yr adar yma. Mae rhai gwledydd erbyn hyn wedi arwyddo cyfamod yn gaddo i ddiogelu'r albatros, ond llofnod sy'n amlwg o'i absenoldeb yw'r un Brydeinig!

**Am fwy o wybodaeth am y 21 rhywogaeth o albatrosiaid a geir ar draws llawer iawn o gefnforoedd y byd; y manylion diweddaraf am yr ymdrechion holl-bwysig i warchod eu poblogaethau a sut y medrwch chi gyfrannu, mae'r tudalenau wê isod yn fannau cychwyn ardderchog.**

www.birdlife.net/action/campaigns/save_the_albatross/

www.antarctica.ac.uk/About_Antarctica/Wildlife/Birds/Albatrosses.html



**HOFF O BYSGOD?**

Os hoffech helpu'r Albatrosiaid a hynny heb orfod teithio mor bell, yna un man dechrau fyddai i brynu'r llyfr ***'Good fish guide'*** gan Bernadette Clarke.
Llyfr yw hwn sy'n dangos sut i fynd ati i ddewis a bwyta pysgod sydd wedi eu dal yn y ffordd a gafodd yr effaith leiaf posib ar yr amgylchedd.
Disgrifwyd hwn fel '*The ultimate consumer guide to eating 'eco-friendly' fish*' – sy'n dangos, er gwallgofrwydd y diwydiant pysgota enfawr, ei bod hi'n dal yn bosib i fwynhau bwyta pysgod heb niweidio'r amgylchedd a chreaduriaid gwyllt y byd.
(Mae'r llyfr ar gael gan y ***Marine Conservation Society*** ac wrth gwrs o siopau llyfrau da - Rhif llyfr rhyngwladol ISBN 0-948150-31-9).

**Gwylio Adar yr Ardd**

Roedd ymgyrch fawr yr RSPB i gofnodi adar y gerddi (mae'n digwydd ddiwedd Ionawr bob blwyddyn) yn 25 mlwydd oed eleni. Mae wedi bod yn gyfle bendigedig i fonitro newidiadau ym mhoblogaeth gwahanol adar dros y cyfnod hwn ac wedi cael ymateb da iawn. Drwy Brydain roedd 250,000 o bobl wedi cymeryd rhan yn 2002; 300,000 yn 2003 a 400,000 eleni gan gynnwys 17,000 o Gymru. Byddwn yn cyflwyno rhai o'r canlyniadau yn ***Llygad Barcud*** yn y dyfodol.

# ADAR CAMPUS CYMRU!

Gwen Thomas, RSPB

**Oes, mae yna adar gogoneddus yr olwg mewn gweledydd pell, ond mae yna amrywiaeth anhygoel ar stepan ein drws ni hefyd. Dyma un o brif negeseuon prosiect newydd 'Adar Campus Cymru!'.**

Ariannir prosiect 'Adar Campus Cymru!' gan RSPB Cymru, y Cyngor Cefn Gwlad, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cronfa'r Loteri, Enfys (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru), a Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru (Amcan 1). Mae'n brosiect partneriaeth, â'i lwyddiant yn dibynnu'n fawr ar gydweithrediad nifer o asiantaethau, grwpiau, ac unigolion. Dechreuwyd ar y gwaith yr haf diwethaf, ac mi fydd y prosiect yn parhau am ddwy flynedd a hanner eto.


Mae'n brosiect sy'n gweithredu ar dair lefel: cadwraeth, cymuned, ac ymwybyddiaeth.

Anela'r gwaith cadwraethol at gyflawni prosiectau bychain er lles saith rhywogaeth:

- y frân goesgoch,
- y grugiar ddu,
- y betrisen lwyd,
- coch y berllan,
- y gornchwiglen,
- y bras melyn, a
- golfan y mynydd.

## A wyddoch chi lle y mae'r adar hyn i'w gweld?

Bydd y Swyddogion Cadwraeth yn gobeithio annog ffermwyr a thirfeddianwyr i wneud prosiectau bychain ar eu tir i helpu'r adar hyn. Bwriad 'Adar Campus Cymru!' yw darparu gwybodaeth a chefnogaeth i ffermwyr iddynt fedru helpu adar sydd wedi prinhau yn eu hardal. Mae nifer o adar allweddol y prosiect ar restr goch RSPB Cymru, sydd yn golygu bod eu sefyllfa bresennol yn peri pryder mawr am eu parhad.



Y FRAN GOESGOCH – UN O ADAR CAMPUS CYMRU! (Llun – RSPB Images)

Ar y lefel gymunedol, mae Swyddogion Cymuned yn gweithio mewn saith ardal lle fydd y gwaith cadwraethol yn cael ei wneud. Mae Swyddogion Cymuned yn yr ardaloedd canlynol: Abertawe a Phenrhyn Gŵyr; Penfro; ardal Aberystwyth; ardal Dolgellau; ym Mhen Llŷn; Môn; ac ardal Rhuthun.

Gwaith y swyddogion hyn fydd codi ymwybyddiaeth ymysg cymunedau lleol a darparu cyfleoedd i bobl ddysgu mwy am adar yn eu hardal. Cadwch lygaid yn agored am sgyrsiau a digwyddiau fydd yn cael eu cynnal am ddim ac yn agored i bawb yn eich hardal chi. Bydd y swyddogion hefyd yn barod i roi sgyrsiau i grwpiau a chymdeithasau lleol – felly cysylltwch â nhw!

Os oes ganddoch chi ddiddordeb mewn gwneud mwy i helpu adar yn eich ardal, mi fydd Swyddogion Cymuned y prosiect hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda phob math o dasgau, yn amrywio o waith cadwraeth ar y tir hyd at ddosbarthu pamffledi.

Mae yna wedyn Swyddogion Dangos Adar, fydd hefyd yn annog pobl i ymuno mewn gweithgareddau, megis teithiau cerdded a dyddiau gwylio adar. Mae tair ohonynt; Swyddog y Gogledd, Swyddog y Canolbarth, a Swyddog y De.

Os oes ganddoch chi ddiddordeb mewn dysgu mwy am y prosiect cysylltwch â Gili Armson, ein Cydlynydd Cymuned, ar (01248) 363 800.

**Mae Gwen Thomas yn gweithio fel Swyddog Cymuned 'Adar Campus Cymru!' ac yn gyfrifol am y Prosiect ym Mhenllŷn ac Ynys Môn.**

# GWEITHGAREDDAU CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

**Ebrill 22ain**
*Darlith* – **Adar y Gerddi – Ffeithiau i'ch Rhyfeddu**
Dewi E Lewis
Y Ganolfan, Porthmadog, 7.30p.m.

**Mai 8fed**
*Taith maes:* **Adar Borthygest**
(ar y cyd â Chymdeithas Edward Llwyd).
Cyfarfod ym maes parcio'r harbwr, 10.30am.
Arweinydd: Twm Elias

**Mai 15fed**
*Taith maes:* **Adar Pen Llŷn.**
(ar y cyd â Chymdeithas Edward Llwyd).
Cyfarfod ym maes parcio Porthmeudwy, Aberdaron, 9.00am
Arweinydd: Rhys Jones

***Mwy o fanylion: Twm Elias, Plas Tan y Bwlch (01766) 590324***

**Bydd rhestr o weithgareddau Hydref 2004 – Gwanwyn 2005 yn ymddangos yn y rhifyn nesaf o *Llygad Barcud*.**

## ARDDANGOSFA – ADAR Y MÔR gan WYNMOR OWEN

Rhwng y 3ydd a'r 24ain o Ebrill eleni, bydd arddangosfa go arbennig yn cael ei chynnal yn y 'Sessi Gallery', Trefdraeth, Sir Benfro. Ac yntau wedi treulio ei blentyndod a'r rhan helaeth o'i fywyd we ar arfordir De-orllewin Cymru, naturiol oedd hi i'r môr, a bywyd gwyllt y môr a'r glannau foc gymaint o ran o waith yr arlunudd lleol Wynmor Owen. Ac yntau wedi ymddiddori mewn adar er blentyn, does dim syndod felly i adar y môr chwarae rhan bwysig yn yr arddangosfa hon hefyd, ddylanwadu ar ei waith acrylig yn bennaf.

Felly, os byddwch yng nghyffiniau Trefdraeth dros wyliau'r Pasg eleni, pam na ewch i gael cipolw waith artist lleol, a chefnogi gŵr lleol yn ei fenter. Noddir yr arddangosfa gan OGAM a Menter Sir Benfro.


Am fwy o fanylion, cysylltwch â Wynmor ar (01239) 820772 neu e-bostiwch wynmor@arenig.plus.

# DEINO-ADAR TSIEINA

**Roedd darganfod ffosil yr aderyn *Archaeopteryx* ('adain hynafol') yn yr Almaen ym 1861 yn profi bod adar wedi tarddu, mewn rhyw ffordd, o'r deinosoriaid – ond roedd sut yn destun dadlau a ffraeo ymysg gwyddonwyr tan yn ddiweddar iawn.**

Roedd gan y creadur hwn, oedd yr un maint a brân, blu digonol i hedfan ond roedd ganddo hefyd ddannedd, crafangau ar fysedd ei freichiau, a chynffon hir. Dim ond 7 enghraifft o *Archaeopteryx* ddarganfyddwyd erioed – a'r cwbl o garreg galch 147 miliwn o flynyddoedd oed o ardal Solnhofen yn yr Almaen.

Tan yn ddiweddar iawn doedd dim deino-adar eraill ar gael i lenwi'r bylchau yn stori datblygiad yr adar cynnar o'r deinosoriaid. Ond yn y 10 mlynedd diwethaf bu cyfres o ddarganfyddiadau cyffrous iawn yng ngogledd-ddwyrain Tsieina sydd wedi datgelu inni rai o'r camau coll:



FFOSIL O *DROMEOSAUR* – UN O'R PERTHNASAU AGOSAF AT *ARCHAEOPTERYX* SYDD WEDI EI DDARGANFOD HYD YMA.
Llun – Natural History Museum, Llundain

***Sinosauropteryx*** – deinosor bychan mewn cyflwr digon da i ddangos ei fod wedi ei orchuddio â ffilamentau hirion oedd yn fath o blu cyntefig.

***Caudipteryx*** – tua maint twrci. Ffilamentau ar ei gorff ond plu go iawn ar flaen ei gynffon fer ac ar ei freichiau.

***Protarchaeopteryx*** – rhedwr cyflym efo breichiau hirion pluog, ond ddim digon datblygiedig i hedfan o ddifri.

***Confuciornis*** – ei nodweddion rhwng yr hedfanwr cyntefig *Archaeopteryx* ac adar modern. Dim dannedd ganddo ond pig fel aderyn. Crafangau yn dal ar flaenau bysedd ei freichiau.

***Adar di-goes!***

Pan ddeuthpwyd a chrwyn rhai o'r Adar Paradwys lliwgar i Ewrop gynta, o'r ynysoedd oddiar arfordir de-ddwyrain Asia (Indonesia heddiw), roedd pobl wedi rhyfeddu. Yn arbennig felly am nad oedd ganddynt draed na choesau – torrwyd y rhain i ffwrdd cyn pacio'r crwyn. Am gyfnod hir credwyd fod yr adar yn ddi-goes go iawn a'u bod yn treulio'u hoes yn hedfan rownd a rownd cyn disgyn yn farw o'r awyr yn y diwedd. Ceir atgof o hyn yn enw gwyddonol un ohonynt – yr Aderyn Paradwys Mawr (*Paradisea apoda*). Ystyr *apoda* yw "heb draed".

# AROLWG O'R AROLYGON

**Daeth y rhan fwyaf o'r wybodaeth sydd gennym am ddosbarthiad, symudiadau a niferoedd adar, yn ogystal a'r newidiadau yn y rhain dros y blynyddoedd, o gofnodion cyrff megis yr RSPB, y BTO, yr Ymddiriedolaeth Gwlyptiroedd, a Chymdeithasau Sirol, ac arolygon penodol a drefnir ganddynt a chan gyrff eraill o bryd i'w gilydd.**

Mae'r math yma o wybodaeth – a gasglwyd gan wirfoddolwyr yn bennaf – yn hollol hanfodol ar gyfer strategaethau priodol i warchod adar a'u cynefinoedd ac yn y pen draw ein byd a'n cynefin ninnau!

Dyma rai arolygon neu geisiadau am wybodaeth y gallwch chi gyfrannu atynt dros y misoedd a'r blynyddoedd nesa:

**Adar Campus Cymru!** – byddai unrhyw gofnodion o'r adar canlynol o ddiddordeb mawr: Y frân goesgoch; y grugiar ddu; y betrisen lwyd; coch y berllan; y gornchwiglen; y bras melyn a golfan y mynydd. Cysyllter â Gili Armson ar (01248) 363 800

**Tylluan Wen** – unrhyw gofnodion a gwybodaeth am lecynnau nythu. Cysyllter â Duncan Brown (01286) 650 547

**Elyrch** – Mae llawer o elyrch dof â modrwyau plastig efo rhifau sy'n ddigon amlwg i'w darllen â sbienddrych neu lygad noeth. Cofnodwch y rhifau, lleoliad, dyddiad a'u gyrru at Adrienne Stretford, RSPB, Bangor (01248) 363 800

**Brain Coesgoch** – Unwaith eto gellir gweld modrwyau ar goesau rhai o'r adar hyn. Cofnodwch liw y fodrwy ac ar ba goes yr ymddengys pa liw, ac unwaith eto eu gyrru at Adrienne (gweler uchod)

**Cnocell Werdd** – Oherwydd pryderon am gwymp yn niferoedd yr aderyn hwn yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri dros yr 20 mlynedd diwethaf, byddai unrhyw gofnodion ohono yn y Parc yn werthfawr. Cysyllter â Kate Williamson (01766) 770 274

**Cyffylog** – Os gwelwch gyffylog yn codi tra rydych allan yn cerdded, anfonwch y manylion at eich cynrychiolydd BTO lleol (gweler isod).

**Creyr glas** – mae'r BTO hefyd yn chwilio am gofnodion o unrhyw nythfa o greyrod, a sawl nyth sydd ynddi, yn unrhyw ran o'r wlad.

**Troellwr Mawr** – Bydd arolygon o'r aderyn anghyffredin hwn yn cael eu cynnal gyda'r wawr ac yn y gwyll yn ystod mis Mehefin eleni – cysylltwch â'r BTO am wybodaeth bellach ynglŷn â'r arolwg hwn.

**Cofnodion eraill** – Mae'r Cymdeithasau Sirol/Rhanbarthol Cymreig bob amser yn falch o dderbyn cofnodion o unrhyw adar i'w cynnwys yn eu hadroddiadau blynyddol. Dros y degawdau rhoddodd yr adroddiadau hyn ddarlun gwerthfawr iawn i ni o'r newidiadau yn niferoedd a dosbarthiad adar o bob math.

Yn ystod mis Ebrill a mis Mai bydd y BTO yn cynnal yr Arolwg Adar sy'n Bridio – 'Breeding Bird Survey' ar hyd a lled y wlad. Gofynnir i wirfoddolwyr gerdded 1km sgwâr, gan nodi faint o adar y maent yn eu cyfri yn y sgwar hwnnw. Cysylltwch a'ch cynrychiolydd BTO lleol (gweler isod), neu ewch i'r wefan www.bto.org

Mae cynrychiolwyr hefyd yn dechrau cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf, felly am fwy o wybodaeth ynglyn ag arolygon fel arolwg clwydfannau gaeaf y gwylanod (gaeaf 2004/2005 a 2005/2006), arolwg mudo adar 2005, ac unrhyw wybodaeth bellach ynglyn ag arolygon eleni, cysylltwch a'ch cynrychiolydd lleol.

BTOweb leading in bird research

**Cynrychiolwyr y BTO yng Nghymru**

**Ynys Môn** - Tony White (01407) 710 137
**Brycheiniog** – John Lloyd (01550) 750 202
**Sir Gaernarfon** – John Barnes (01286) 650 362
**Ceredigion** – Moira Convery (01970) 612 998
**Sir Gaerfyrddin** – David Poulter (01267) 233 816
**Dwyrain Clwyd** – Anne Brenchley (01352) 750 118
**Gorllewin Clwyd** – E M ab Owain (01492) 584 168
**Canol/De Morgannwg** – Rob Nottage (01446) 781 423
**Gorllewin Morgannwg** – Bob Howells (01792) 405 363
**Gwent** – Jerry Lewis (01873) 855 091
**Meirionnydd** – Peter Haveland (01690) 760 377
**Sir Drefaldwyn** – Jane Kelsall (01938) 556 438)
**Sir Benfro** - Annie Poole (01834) 891 667
**Sir Frycheiniog** – Pete Jennings (01597) 810 880

# CALENDR Y CYMDEITHASAU

## CYMDEITHAS EDWARD LLWYD

### Gwynedd a Môn

**Mai 22ain**
Taith yn ardal Llanuwchllyn.
Cyfarfod ger pont Dolhendre, 10.30am.
Arweinydd: Gwawr Morris (01286) 871 368

**Mai 29ain**
Taith yn ardal Nant Peris.
Cyfarfod ym maes parcio nant Peris, 10.30am.
Arweinydd: Dewi Jones (01286) 881 471

**Mehefin 5ed**
Taith yn ardal Dyffryn Peris.
Cyfarfod ger Pont Penllyn, 10.30am.
Arweinydd: Ifan ac Olwen Williams (01248) 722 312

**Mehefin 12fed**
Taith yn ardal Abersoch.
Cyfarfod ger ysgol Abersoch, 10.30am.
Arweinydd: Lil Parker (01766) 530 650

### Gogledd Ddwyrain

**Mehefin 5ed**
Maeshafn ac Eryrys.
Taith cymhedrol tua 7-8 milltir yn crwydro Carreg Galch Sir y Fflint.
Dafydd Meirion Jones (01352) 754751

**Mehefin 11eg**
(nos Wener am 6:45y.h.)
Taith min nos yn ardal Trelawnyd ger y Rhyl.
Gruff a Branwen Roberts (01745) 570302

**Mehefin 12fed**
Cyfle arall i grwydro dros y ffin i fwynhau tirwedd a mwynder Sir Gaer.
Heulwen Bott (01928) 723351

**Mehefin 19eg**
Mor Wenoliad a mwy.
Cyfle i weld rhai o adar prinaf Cymru a rhyfeddodau eraill y traeth a'r twyni yn ardal Gronant.
Alun Williams (01745)730300 ac
Eifion Griffiths (01745) 570395

**Mehefin 27ain**
Taith fotanegol o Landudno dros y Gogarth ac i lawr Llwybr y Mynaich.
Keith Lewis (01492) 515621

### De

**Mai 1af**
Ymweld â 'viaduct' y lein Abertawe-Amwythig, a thipyn o hanes yr ardal.
Trefor ac Audrey Price (01550) 720550

**Mai 8fed**
O amgylch y Cribarth. Taith hanesyddol a diwydiannol.
Arwel Michael (01639) 844080

**Mai 15fed**
Trewyddel i Drefdraeth.
Sian Bowen (01437) 767289
Myrddin Bowen (01437) 769936

**Mai 15fed**
Ysbyty Ystwyth ac o amgylch y Glog Fawr a Rhos Marchnant ac yn ol trwy goed Nantyberws. John Williams (01970) 617173

**Mai 22ain**
Llwybrau Llandewi Brefi ac Afon Teifi.
Ieuan Roberts (01570) 422783

**Mai 29ain**
Blodau ac adar y twyni tywod yng Ngwarchodfa Natur Cenfig.
Harri Williams (01792) 882799

**Mehefin 5ed**
Llyn Brianne ac adar a phlanigion Dinas.
Dafydd Dafis (01550 760236)

**Mehefin 12fed**
Ardal Castell Dinefwr.
Wil Evans (01588) 824251

**Mehefin 26ain**
Cwm Einion.
Martin Davies a Sian Saunders (01970) 832230

**Mehefin 26ain**
Taith i Lyn y Fan Fawr, Copa Fan Brycheiniog ac ar hyd Fan Hir.
Elisabeth Jones 01792 864238

## Y GYMDEITHAS FRENHINOL ER GWARCHOD ADAR (RSPB)

### GWARCHODFA YNYS HIR, Eglwysfach, Machynlleth
### Am fwy o fanylion ffoniwch (01654) 700 222

**Mai 9fed**
Taith adar y coedydd, Ynys Hir 2-4p.m.

Noson gwrando ar y gïach, Aber Mawddach 8.30p.m. – tan yn hwy

**Mai 16eg**
Cor y wig, Ynys Hir.
Taith gynnar i wrando ar yr adar yn canu. 4.15 – 7a.m.

**Mehefin 5ed**
Cyflwyniad i wylio adar, Ynys Hir, 11.30 – 1.30 p.m.

**Mehefin 6ed a 13eg**
Y Troellwr Mawr, Coed Garth Gell.
Dwy daith i chwilio am yr aderyn swil ac anghyffredin hwn.
9-10.30p.m.

**Mehefin 13eg**
Diwrnod arddangos sbïenddrychod a thelesgopau.
Ynys Hir, 11a.m. – 4p.m.

**Goeffennaf 9fed**
Taith adar y coedydd, Aber Mawddach, 2-4p.m.

### GWARCHODFA CONWY
### Am fwy o fanylion ffoniwch (01492) 584 091

**Mehefin 4ydd - 5ed**
Ffair lyfrau adar.

### SESSIONS GALLERY TREFDRAETH, SIR BENFRO

**Ebrill 3ydd-24ain**
Arddangosfa o luniau Adar y Môr a morluniau.
Am fwy o fanylion cysyllter â Wynmor Owen ar (01239) 820772

# ADOLYGIAD LLYFR –
## gan Twm Elias

***Yli*** gan Gwyn Thomas a Ted Breeze Jones, Gwasg Dwyfor, 36 tud., £5.95

**"Priodas rhwng gair a llun sy'n hyfrydwch i'r glust a'r llygad", dyma geir yn y cyfuniad deniadol, bywiog a doniol hwn o gerddi Gwyn Thomas â ffotograffiau y diweddar Ted Breeze Jones.**


Hon yw'r ail gyfrol yn yr un cywair – "***Anifeiliaid y Maes Hefyd***" (1993) oedd y gynta a da yw gweld bod y fformiwla o gyfuno cerddi Gwyn â lluniau Ted wedi gweithio yr un mor lwyddiannus yn y ddwy. Dywed Gwyn fel yr anfonodd Ted "...haldiad o sleidiau ataf imi weld a gawn fy symbylu ganddynt i ysgrifennu cerddi...Bob yn dipyn fe dyfodd y sleidiau a'r geiriau i fod yn gasgliad, sef y casgliad a welir yma."

Mae'n rhyfedd rhywsut, o ystyried yr hwyl gafwyd ar y gwaith hwn, na welwyd ymgeisiadau tebyg gan eraill dros y blynyddoedd i asio llên a llun fel hyn – yn sicr nid oes prinder defnyddiau yn y nail gyfrwng na'r llall. Ond efallai y buom yn lwcus yma bod y cyfeillgarwch clos rhwng dau grefftwr wedi eu hysbrydoli i gyfuno eu doniau fel hyn.

Do, fe welwyd ambell boster hardd a lliwgar lle ceid llun yn dylunio cerdd adnabyddus – ond fel arall mae hi yma efo'r cerddi yn dramateiddio'r lluniau. Maent yn luniau trawiadol a llawn bywyd a dwud y lleiaf ac fe ychwanegir yn ddibendraw atynt drwy wreiddioldeb y ddeialog a'r ffraethineb yn y cerddi. Yn sicr, cafodd Gwyn andros o hwyl yn rhoi lleisiau a phersonoliaethau i'r adar a chreaduriaid eraill a bortreadir.

Roeddwn wrth fy modd efo llun y titw mawr a safodd ar ben un o gamerâu Ted ac a oedd, yn y gerdd, yn troi'r drol braidd ar y ffotograffydd adar gan ei gyfarwyddo Ted i osod ei hun yn iawn ar gyfer cael tynnu ei lun!:

"A thrïa, wir ddyn-i, trïa roi gwên,
Tria ymddangos yn ddymunol a chlên;"




A beth am y gnocell â'i phen allan o dwll mewn boncyff a symbylodd y gerdd "Sym' hi" ac a lwyddodd i ddal yr olwg flin yn llygaid yr hen dderyn i'r dim! Yna'r ddau fwch gafr sydd fel petaent yn ffraeo ynghylch rhyw fun (m'wn!) a'r dylluan sy'n mwynhau llyncu llygoden. Ceir rhyfeddu yn ogystal at alarch du, a'r "iarlles mewn eurlliw", sef merch hardd o'r India yn ei gwisg draddodiadol – yn bwyta hufen ia!

Oes, mae sawl delwedd drawiadol yn llamu o'r tudalennau gan roi gwedd newydd ac annisgwyl i lun a cherdd.

**WYDDOCH CHI?**

Pan fydd Hugan (*Sula bassana*) yn plymio, bydd yn taro'r dŵr fel saeth ar gyflymder o tua 50 mya.

Yr aderyn cyflymaf yn y byd yw'r hebog tramor (*Falco peregrinus*), all gyrraedd cyflymder o 350km yr awr (217 mya) pan yn plymio ar adar eraill.

# LLYGAD BARCUD

Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

**Rhif 1 – Gwanwyn 2004**

**Golygyddion –**
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

**Cyfranwyr –**
Twm Elias (Plas Tan y Bwlch)
Kelvin Jones (Clwb Adar Glaslyn)
Dafydd Roberts (Parc Cenedlaethol Eryri)
Gwen Thomas (RSPB Cymru)
Iolo Williams
Rhodri Dafydd (CCGC)

Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.

## CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

**Llywydd**
Iolo Williams

**Cadeirydd a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud*–**
Twm Elias
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU
(01766) 590 324

**Trysorydd –**
Brian Paul
Tŷ Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT
(01766) 770 500

**Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud*–**
Rhodri Dafydd
Erw Deg, Dyffryn Ardudwy, Gwynedd LL44 2DW
(01341) 247 446

**Ysgrifennydd Aelodaeth –**
Anwen Breeze Jones
Tan y Deri, Bryn Eithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF
(01766) 770 833

Am fwy o wybodaeth a ffurflen ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch âg Anwen Breeze Jones.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd mis Mehefin os gwelwch yn dda.**